Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Tachwedd 2017

Amser: 09.01 – 14.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4428

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Neil Hamilton AC Mike Hedges AC Jane Hutt AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC David Rees AC
Tystion:	Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru Kate Carr, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Margaret Davies, Llywodraeth Cymru Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Tai ac Adfywio Ian Williams, Llywodraeth Cymru

	Ian Walters, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Catherine Hunt (Ail Glerc) Georgina Owen (Dirprwy Glerc) Martin Jennings (Ymchwilydd) Owen Holzinger (Ymchwilydd) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth David Thomas (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Jane Hutt AC fel aelod parhaol o'r Pwyllgor.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai ac Adfywio – Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) – 14 Tachwedd 2017

3 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Sesiwn dystiolaeth 7 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a Kate Carr, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer
2018-19.

3.2 Cytunodd y Comisiynydd i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am ei hadborth mewn perthynas â chynlluniau peilot cyllidebu cyfranogol Llywodraeth Cymru.

4 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Margaret Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllidebu Strategol, ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

4.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am faint y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn o ran cyllid canlyniadol Barnett a'r lluosydd y cytunwyd arno yn y fframwaith ariannol, o ganlyniad i gyhoeddiadau cyllideb Llywodraeth y DU.

5 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): sesiwn dystiolaeth

5.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio; Ian Williams, Llywodraeth Cymru; ac Ian Walters, Llywodraeth Cymru, ynghylch Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru).

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 29 Tachwedd 2017

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.